more maths grads

multiplying opportunities

# Gwnewch benderfyniad positif i'ch dyfodol!









# Mathe
# pwnc r
# defnyddi



## Agor drysau

Mae cymwysterau mathemateg yn fynedfa hanfodol i lawer o swyddi a chyrsiau gyda nifer ohonyn nhw'n nodi TGAU Gradd C neu lefel A mathemateg ymhlith eu gofynion mynediad.





## Cyflogadwyedd

Wyddoch chi fod gan bobl â chymwysterau mathemateg rai o'r cyfraddau diweithdra isaf a bod y rhai â lefel A mathemateg yn ennill ar gyfartaledd tua 10% yn fwy na'r rhai sydd hebddi (tua £240,000 dros hyd oes cyfartalog)?

# mateg: mwyaf iol y byd!



## Sgìl am oes

Ydych chi erioed wedi cael eich drysu gan y contract ffôn symudol, cerdyn siop neu gynnig diweddaraf gan eich banc? Mae mathemateg yn hanfodol i'ch helpu i beidio â chael eich twyllo mewn byd sy'n fwyfwy cymhleth.



## Gyrfaoedd cyffrous



Mae mathemateg yn arwain at rai o'r gyrfaoedd arian mawr, mwyaf cyffrous sydd ar gael. O ddylunio gemau i fodelu triniaethau am ganser, o gynllunio cyllidebau miliynau o bunnau i roi lloerenni yn y gofod, mae'r posibiliadau'n fwy eang nag y byddech yn meddwl.

www.moremathsgrads.org.uk

more maths grads
multiplying opportunities

hefcw

# Dewisiadau pellach

## TGAU

Os ydych yn sefyll eich arholiadau TGAU ar hyn o bryd, bydd cael gradd dda yn cynnig digon o ddewisiadau ar gyfer Lefel A, yn edrych yn dda ar eich CV ac yn rhoi sgiliau hanfodol i chi. Mae ymchwil gan y llywodraeth yn dangos bod pobl â sgiliau mathemateg sylfaenol da yn llawer mwy tebygol o lwyddo yn y gweithle, felly gweithiwch yn galed nawr i gael y radd orau bosibl.

## Lefel A

Efallai eich bod wrthi'n ystyried pa bynciau Lefel A i'w dewis ar hyn o bryd. Mae Lefel A mathemateg yn ofyniad os ydych chi eisiau mynd ymlaen ac astudio pynciau fel mathemateg, ystadegaeth, ffiseg neu gyfrifeg yn y brifysgol. Fodd bynnag, rydych chi'n fwy tebygol o lwyddo hefyd mewn llawer o bynciau gradd eraill os ydych chi wedi gwneud Lefel A mathemateg.
Er enghraifft mae graddau mewn daearyddiaeth, seicoleg, meddygaeth a gwyddor chwaraeon i gyd yn defnyddio sgiliau mathemateg uwch. Hefyd, mae Lefel A mathemateg yn cael ei pharchu'n fawr gan gyflogwyr a thiwtoriaid derbyn mewn prifysgolion sy'n ei gweneud hi'n gymhwyster hynod o ddefnyddiol.

## Lefel gradd

Os ydych yn ystyried pa raglen radd i'w dewis, bydd gradd mewn mathemateg yn eich helpu i fod yn berson graddedig y bydd mawr alw amdano. Ar wahân i'r sectorau amlwg fel cyllid a TG, mae graddedigion mathemateg yn mynd i amrywiaeth eang o feysydd. O gynllunio trafnidiaeth i ddadansoddi profion cyffuriau, newyddiaduriaeth wyddoniaeth neu fodelu'r newid yn yr hinsawdd, gall graddedigion mathemateg fynd i bron unrhyw faes oherwydd eu hyfforddiant mewn datrys problemau a meddwl yn ddadansoddol. Byddwch yn canfod graddedigion mathemateg ar ben uchaf busnes neu y tu ôl i gynllunio logistaidd y prif archfarchnadoedd, mae cannoedd yn gweithio i wasanaethau cudd-wybodaeth y llywodraeth hyd yn oed.






Design: info@jamesanthonygraphics.com   Reorder: sales@highfieldprint.co.uk